



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# adroddiad



Adroddiad Blynyddol y Cyngor 1998-1999

Carai'r Llywydd a'r Cyngor ddiolch i'r bobl  
a'r cyrff a ganlyn am eu nawdd hael i  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol  
Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 1998  
a diwedd Mawrth 1999. Felly hefyd ein  
noddwyr anhysbys.

---

#### **Noddwyr**

Mathew & Angela Prichard  
Captain Norman Lloyd Edwards  
Major & Mrs HFR Homfray  
Mr G Wyn Howells  
Y Gwir Anrhydeddus. Iarll Plymouth DL FRSA  
Miss Mary Cashmore  
Dr Margaret Berwyn Jones  
Mr John & Mrs Jane Sorotos  
Mrs Christine Eynon  
Mrs Meriel Watkins  
Mr John Foster Thomas  
Mr Alan Smith  
Mr & Mrs David Andrews  
Mr Wynford Evans CBE  
Neil & Glenys Kinnock

#### **Cymynroddwyr**

Dr Roderic Bowen  
Syr Kyffin Williams  
Dr Hilary Yewlett  
Mr Dafydd Bowen Lewis  
John Lovell

#### **Noddwyr Seddi**

Mr HG Jones  
G & AP Robinson

#### **Noddwyr y Cinio Mawreddog (nwyddau a gwasanaethau)**

Gardner Merchant Leisure  
Theatre Vision  
Golley Slater & Partners  
Zenith Media  
SA Brain & Co Ltd  
In-Plant Design  
Dŵr Ffynnon Ty Nant  
EPC K2 (Cardiff) Ltd  
Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd

#### **Cymynroddion**

Clara Ellen Smith Will Trust  
Miss H A Rees

#### **Rhoddion eraill**

Cyfeillion AOGC  
Cardiff & Bristol Channel Incorporated  
Shipowners' Association

#### **Noddwyr a Rhoddwyr Nwyddau a Gwasanaethau**

Grosvenor Waterside  
Legal & General  
Coutts & Co  
Royal Mint  
CableTel  
Glofa'r Tŵr  
Marathon Oil UK Ltd  
Gwasanaeth Masnachol Banc Lloyds  
Cywaith Cymru  
Alfred McAlpine Slate Products Ltd  
The National Heritage Arts Sponsorship Scheme  
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

#### **Ymddiriedolaethau**

Anhysbys  
Headley Trust  
G C Gibson Charitable Trust  
National Art Collections Fund  
Derek Williams Trust  
Esme Fairbairn Charitable Trust

#### **Noddwyr Gwreiddiol a Chorfforaethol**

Golley Slater Group  
SA Brain  
Coutts & Co  
MEM Group  
Palser Grossman  
NCM  
Whitbread Beer Company  
Barclays Cymru a Gorllewin Cymru  
Gwasanaeth Masnachol Banc Lloyds  
Banc y Midland

#### **Grantiau Ymchwil**

CADW  
Prifysgol Caerdydd

# ADRODDIAD 1998-99

Unfed Adroddiad Blynyddol ar ddeg  
a phedwar ugain y Cyngor

## ADRODDIAD 1998-99

© Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru,  
1999

Golygydd: Penny Fell

Cyfieithiad: Siân Roberts, Elin ap Hywel

Dylunio a Chynhyrchu: Arwel Hughes

Argraffu: Mid Wales Litho, Pont-y-pŵl

ISBN: 0 7200 0475 6

**CYNNWYS**

RHAGAIR GAN Y LLYWYDD	5
AROLWG O'N GWEITHGAREDDAU	
AMGUEDDEFA AC ORIEL GENEDLAETHOL CAERDYDD	
Archeoleg a Nwmismateg	8
Celfyddyd	10
Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol	12
Daeareg	14
Mynediad	15
AMGUEDDEFA WERIN CYMRU	17
DIWYDIANT	20
AMGUEDDEFA DIWYDIANT GWLÂN CYMRU	21
AMGUEDDEFA LECHI CYMRU	22
AMGUEDDEFA'R LLENG RUFENIG	24
AMGUEDDEFA RUFENIG SEGONTIUM	24
ORIEL TŶ TURNER	25
PRIF DDANGOSYDDION PERFFORMIAD - FFIGYRAU	26
HWYLUSO GWAITH YR AMGUEDDEFA	27
ATODIADAU	
i.    Llys y Llywodraethwyr a'r Cyngor	28
ii.   Staff	29

*Cyhoeddir Crynodeb o'r Datganiad Ariannol am  
1998-9 yn gydymaith i'r Adroddiad hwn*



Injan Penydarren, a adeiladwyd gan Richard Trevithick, 1804  
*Llun gan T. Cuneo*

## AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

*Y Genhadaeth*

Diben Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yw hyrwyddo addysg y cyhoedd, trwy wybodaeth gyffredinol am archeoleg, celfyddyd, bioamrywiaeth, daeareg a hanes cymdeithasol a diwydiannol Cymru. Ei hamcanion yw:

1. Hyrwyddo gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru mewn cyd-destun byd-eang ac felly sicrhau gwell dealltwriaeth o Gymru fel cenedl, a'i lle yn y byd.
2. Sicrhau'r lle gorau posibl i gadw'r casgliadau o fri a phwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol a gedwir yn ei gofal.
3. Sicrhau y gellir astudio a gwerthfawrogi'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thechnoleg er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o'r presennol ac ysbrydoli trafodaeth wybodus am y dyfodol.
4. Ysbrydoli nifer cynyddol o bobl i ymweld â'n hamgueddfeydd a defnyddio'u hadnoddau amrywiol.

Yn sylfaen i'r holl amcanion hyn mae'r angen i ddatblygu ein holl adnoddau yn ddoeth a'u defnyddio yn greadigol, fel y gallwn addasu'n llwyddiannus mewn cyfnod o newid diwylliannol, economaidd a thechnolegol.

Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd Cyfarwyddwr AOCC, Colin Ford. Gwnaeth newidiadau arloesol mewn nifer o'n hamgueddfeydd, yn enwedig Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa'r Llang Rufeinig. Rhoddodd hefyd bwyslais ar gyfoethogi'r dehongli yn holl amgueddfeydd AOCC a'u gwneud yn fwy agored. Yn ystod ei bum mlynedd wrth y llyw, gosododd y sylfeini ar gyfer nifer o ddatblygiadau pwysig y bwriedir eu gweithredu yn ystod y degawd nesaf. Croesawyd ei olynydd, Anna Southall, a fu'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn AOCC gyda chyfrifoldeb dros Weithredu a Datblygu.



Anna Southall  
Cyfarwyddwr

A ninnau mewn cyfnod pwysig yn hanes gwleidyddol Cymru, rydym wedi ailwerthuso a diwygio Cynllun Corfforaethol Strategol a fydd yn datblygu ar yr hyn sydd wedi digwydd ac wedi'i gyflawni yn y gorffennol ac yn ein dwyn i'r mileniwm newydd.

*Y Dyfodol*

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn agor trwy amlinellu materion allweddol y bu ein hamgueddfeydd yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn, ac mae'n sôn am faterion pwysig eraill a fydd yn codi yn y dyfodol agos.

1. Creu amgueddfa ddiwydiannol, a strategaeth ehangach, sy'n deilwng o genedl ddiwydiannol gyntaf y byd

Ar ôl gwerthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym Mae Caerdydd (gweler tudalen 20) mae gennym, am y tro cyntaf, arian y gallwn ei ddefnyddio'n arian cyfatebol ar gyfer grantiau oddi wrth gyrff ariannu. Bwriadwn ddefnyddio hwn i greu Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe, dinas a all honni mai hi oedd crud y chwyldro diwydiannol yng Nghymru. Dewiswyd sefydlu'r amgueddfa ddiwydiannol yn Abertawe gan fod yno le i ddangos cewri technolegol hanes diwydiant a'r môr; oherwydd brwdfrydedd Dinas a Sir Abertawe; a chan y byddai'n gyfle i AOCC fagu cysylltiad agosach â phobl Gorllewin Cymru.



Mathew Prichard  
Llywydd

Dosbarthwyd dogfen ymgynghorol **Cymru - y wlad ddiwydiannol gyntaf** - ym 1998/9, sy'n amlinellu awydd AOCC i ddehongli diwydiant Cymru ar raddfa genedlaethol. Bwriadwn i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gyfeirio pobl at ein safleoedd diwydiannol eraill: Amgueddfa Lechi Cymru, lle mae datblygiadau eisoes ar y gweill; Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, yr ydym wrthi'n paratoi cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ei chyfer; a Phwll Mawr, Blaenafon, man y byddwn yn cydweithio ag ef yn fuan i adrodd hanes y diwydiant glo yng Nghymru, gan gyfuno'r hanes diwydiannol a'r hanes cymdeithasol.

2. Gofalu'n well am ein casgliadau, yn enwedig trwy ddatblygu'r Ganolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw

Mae'r ffaith fod gennym gasgliadau o eitemau go iawn yn ein gwneud yn wahanol i Brifysgol ar y naill law, a pharc adloniant ar y llaw arall. Nid yw'r rhan fwyaf o'r eitemau sydd yn yr amgueddfa'n cael eu dangos i'r cyhoedd o gwbl, ond cânt eu casglu oherwydd y wybodaeth y gallant ei rhoi i ni. Mae gennym ryw 7,000,000 o eitemau neu grwpiau, a

gasglwyd dros y ganrif ddiwethaf. Dim ond traean o'r rhain sy'n cael y gofal dyladwy ar hyn o bryd: bwriadwn fynd i'r afael â hyn dros y deng mlynedd nesaf fel y gallwn edrych ymlaen a gofalu'n iawn am ein casgliadau yn y dyfodol.

Ar ôl prynu'r Ganolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, ym Awst 1998, mae gennym le o dan yr un to ar gyfer ein holl gasgliadau diwydiannol, Canolfan Adnoddau Archifyddol, a chyfleusterau ar gyfer gwaith cadwraeth a chadw casgliadau wrth-gefn. Bwriadwn ddatblygu'r ganolfan hon er mwyn darparu'n well ar gyfer casgliadau ymchwil a gedwir ar ein safleoedd i gyd.



Y Ganolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw

3. Chwarae rhan allweddol mewn strategaethau cenedlaethol a rhyngwladol ym maes Bioamrywiaeth

Ein casgliadau helaeth ni yw'r gronfa fwyaf sydd, o ran gwybodaeth, am fyd natur yng Nghymru ac, o ran rhai agweddau, mewn rhannau eraill o'r byd hefyd. Mae'r Amgueddfa mewn sefyllfa unigryw i ddwyn ynghyd agweddau ar ddiwylliant Cymru a'r amgylchedd sy'n dylanwadu ar y diwylliant hwnnw, fel a nodir yn Agenda 21, y cynllun gweithredu byd-eang sy'n hyrwyddo defnyddio adnoddau mewn ffordd gynladwy.

Mae bioamrywiaeth (amrywiaeth pethau byw) yn ffynhonnell naturiol bwysig sy'n darparu bywyd, meddyginiaethau, deunyddiau diwydiannol a mwynhad diwylliannol i ni. Bwriadwn ddefnyddio ein Hadrannau Bioamrywiaeth a Daeareg i barhau i helpu pobl i ddeall amrywiaeth pethau byw yng Nghymru trwy gynnal arolygon a gwneud ymchwil ar rywogaethau pwysig yn y môr ac ar y tir. Trwy

barhau i ymchwilio, a chyhoeddi'r wybodaeth i'r cyhoedd, byddwn yn cyfrannu at gynlluniau'r llywodraeth a chynlluniau lleol ym maes bioamrywiaeth gan helpu i ddiogelu ein hadnoddau naturiol, a datblygu economi cynladwy.



4. Sicrhau bod ein Hamgueddfeydd, a'r hyn a gynigiant, ar gael i gynifer o bobl ag y bo modd

Byddwn yn cyflawni hyn trwy ysbrydoli nifer cynyddol o ymwelwyr 'cig a gwaed' i ddod i'n hamgueddfeydd. Mae arddangosfeydd a gweithgareddau yn help i annog ymwelwyr newydd ac i ddenu pobl yn ôl. Yn ystod y flwyddyn, aeth AOCC ati i ailwampio'r rhaglen arddangosfeydd, gyda'r bwriad o gynnal llai o arddangosfeydd a'r rheiny'n rhai mwy pwerus.

Hyd dair blynedd yn ôl, nid oedd ein hamgueddfeydd yn cynnal ymchwil gyson i arferion ymwelwyr. Roedd hwn yn fwch difrifol yn ein darpariaeth. Ym 1998, comisynwyd Beaufort Research i gynnal ein hail arolwg haf o ymwelwyr â phum amgueddfa. Dysgwyd, er enghraifft, bod 70% o'r bobl sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd yng Nghaerdydd yn dod o fannau sydd o fewn hanner awr oddi yno yn y car: rhoddodd hyn wybodaeth werthfawr i ni ar gyfer ein strategaethau marchnata yn y dyfodol.

Mae ein Safwe'n annog pobl i ddod ar rith-ymweliadau â'r amgueddfeydd - ac yna, o bosib, i ddod yma yn y cnawd. Ail-lansiwyd y safwe ym mis Gorffennaf 1998, gyda Swyddog Gwe llawn amser, ac mae eisoes wedi ennyn canmoliaeth y beirniaid. Bwriadwn ddatblygu'r safwe i fod yn ffynhonnell



wybodaeth a chwarae rhan yn y Grid Cenedlaethol tros Ddysgu sy'n rhan o gynlluniau'r Llywodraeth. Ym 1998/99, buom wrthi'n trefnu i gyflwyno mynediad am ddim i grwpiau ysgolion ac fe ddechreuwyd gwneud hynny ar 1 Ebrill 1999. Un o'n prif gynlluniau ar gyfer y dyfodol yw caniatáu mynediad am ddim i bob plentyn oedran ysgol a phensiynwr, gan alluogi AOCC i gyflawni ein cenhadaeth i sicrhau dysgu gydol oes.

5. Defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol ac yn ddoeth, gan addasu i amgylchiadau newydd o ran ariannu a blaenoriaeth

Staff AOCC yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr: tua diwedd y flwyddyn, cynhaliwyd ymarferiad ad-drefnu staff yn AOCC gyda chymorth cwmni ymgynghori KPMG. Ag ysbryd datganoli yn gryf yn y tir, roeddent yn argymhell rhoi pwerau i bob un o'n hamgueddfeydd unigol ac ad-drefnu'r Uwch Reolwyr trwy greu Fforwm Rheoli ar gyfer AOCC yn gyfan.

Mae dyfodol amgueddfeydd yn dibynnu ar safon eu staff a bu'r mater hwn yn flaenoriaeth gennym eleni o ran cynllunio adnoddau. Nid ydym am dwyllo'n hunain: yn draddodiadol, bu'n galed i Amgueddfeydd greu'r amodau iawn i feithrin

doniau staff iau. Gwnaethom newidiadau digon anodd er mwyn creu'r amodau hynny. Mae adolygiad o gyflogau a graddau swyddi ar y gweill er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddenu, i gadw ac i wobrwyo y bobl orau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Bwriedir chwilio am ffynonellau ariannol newydd, trwy greu incwm masnachol a thrwy bartneriaethau â busnesau ac asiantaethau ariannu. Mae ein Hadran Ddatblygu yn chwilio am bartneriaethau, gan gynnwys rhai a all ddarparu arian o Ewrop ac arian Loteri, cwmnïau preifat ac unigolion. Ceir rhestr o'r partneriaethau llwyddiannus a gafwyd eleni y tu mewn i'r clawr.

Mae ein strategaeth yn dibynnu'n helaeth ar gydweithio â chyrff eraill sy'n rhannu ein delfrydau. Heddiw, ni all yr un sefydliad fforddio bod yn ynysig a bydd partneriaethau gyda Dinas a Sir Abertawe, Pwll Mawr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Gwynedd ac asiantaethau amgylcheddol yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion; a thrwy gydweithio, i sicrhau bri rhyngwladol i Gymru.

Mathew Prichard Llywydd y Cyngor



Pwll Mawr

## ARCHEOLEG A NWMISMATEG

### *Arddangos a Dehongli*

Gyda dyfodiad yr ewro ym 1999, manteisiodd AOCC ar y cyfle i fwrw golwg dros gyfnodau mewn hanes pryd y defnyddid arian tramor yng Nghymru a Lloegr - yn swyddogol ac yn answyddogol. Cydfenter â'r Bathdy Brenhinol oedd *Tuag Un Arian Treigl* ac roedd yn cynnwys ceisiadau yn y gystadleuaeth ryngwladol i gynllunio darnau arian yr ewro.

Dros wyliau hanner tymor y Gwanwyn, cawsom gwmni Grunal y Bathwr Arian yn yr Amgueddfa ac fe gafodd llu o bobl bleser mawr o'i weld yn creu darnau arian Eingl-Sacsonaidd. Bathwyd rhyw 2,500 o 'ddarnau arian' gan Grunal a'r cyhoedd.



Grunal yn bathu 'darnau arian'

Arddangosfa am gyfnod y tywysogion Cymraeg Rhodri Mawr a Hywel Dda oedd *Llysoedd a Theyrnasoedd*. Roedd yn wrthbwynt i *Tywysogion fel Noddwyr*, ac fe'i hamserwyd i gydreddeg â'r Bedwaredd Gynhadledd Ryngwladol ar Gelfyddyd Ynysol. Trafodwyd eitemau a ddarganfuwyd yn ddiweddar wrth wneud gwaith maes ar grannog Llyn Sfyddan, Powys a Llanbedrgoch, Ynys Môn, ac ailagorwyd yr oriel Cofadeiliau Cristnogol Cynnar wedi'i haddurno'n hardd.

Cyfoethogwyd yr Oriel Darnau Arian a Medalau ym mis Mai 1998, pan ychwanegwyd Trysor Cudd



Oriel Cofadeiliau Cristnogol Cynnar

Tregwynt at yr arddangosfa. Casgliad ydyw o ryw 33 o ddarnau aur, 467 darn arian a modrwy aur o gyfnod y Rhyfel Cartref ac mae'n un o ychwaneg- iadau pwysicaf y blynyddoedd diwethaf.

Dros Benwythnos Cenedlaethol Archeoleg, cododd yr Adran Archeoleg ei phac a symud i'r Amgueddfa Werin. Bu dros 800 o bobl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, a oedd yn cynnwys cyfle i weithio ar safleoedd cloddio a hen grefftau haearn a choed. Yn ystod y penwythnos hwn hefyd lanswyd safwe'r Adran Archeoleg a Nwmismateg. Mae iddo ddalennau gwerthfawr, sy'n cynnwys catalog o Drysor Cudd Tregwynt, gwybodaeth am Fedd y Rhyfelwr Celtaidd a gêm gadwraeth ryngweithiol - Antur Fawr Harri - a'r cwbl, gan gynnwys y cartwnau, wedi'u creu gan staff yr Amgueddfa.



Un o ddalennau'r safwe Archeoleg

### *Gwaith Maes ac Ymchwil*

Bu'r gwaith cloddio'n parhau ar sylfeini eglwys Teilo Sant, Llandeilo Tal-y-bont ger Pontarddulais. Bydd y wybodaeth a gawn yn ein helpu wrth i ni ailgodi'r eglwys yn yr Amgueddfa Werin.



Arddangos dulliau gwaith y gof a'r saer ers talwm yn ystod Penwythnos Cenedlaethol Archeoleg

Parhau hefyd wnaeth y gwaith cloddio ar safle'r anheddiad o'r Oesoedd Canol cynnar yn Llanbedrgoch, Ynys Môn. Canfuwyd tystiolaeth bod mur amddiffynnol trawiadol o amgylch yr anheddiad hwn o eiddo'r Llychlynwyr.



Cofnodi'r gwaith cloddio yn Burry Holms

Mewn gwerthusiad archeolegol yn Burry Holms, Penrhyn Gŵyr, dadorchuddiwyd pennau saethau o'r cyfnod Mesolithig Cynnar, ac ysgrafell a hen lafnau a ddefnyddiwyd i wneud offer cerrig, yn dyddio yn ôl i tua 7000 CC.

Daliwyd ati i wneud gwaith cadwraeth ar goed cwch canoloesol Pîl Magwyr, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Elusennol Laing ac Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn.

Cyhoeddodd AOCC *The Medieval Tiles of Wales* gan John Lewis, cyn Geidwad Cynorthwyol Archeoleg Ganoloesol a Diweddarach. Mae hwn yn rhan o gyfrifiad o deils canoloesol trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Ceir ynddo luniau o 800 o gynlluniau ar gyfer teils llawr o adeiladau canoloesol yng Nghymru ac mae o ddidd-ordeb mawr i archeolegwyr a myfyrwyr hanes dylunio.



AMGUEDDFA AC ORIEL GENEDLAETHOL CAERDYDD

*Tywysogion fel Noddwyr; Casgliadau Celf Tywysogion Cymru o'r Dadeni hyd Heddiw* oedd prif arddangosfa'r flwyddyn yn yr Oriol Genedlaethol. Denodd fwy nag erioed o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, gan wneud i'r cyhoedd sylweddoli, o'r diwedd, bod

nawdd masnachol, gyda Legal & General a Coutts, y banc preifat, yn brif noddwyr.



Robert Peake, Harri Tywysog Cymru ar faes yr Helfa Y Casgliad Brenhinol  
© Ei Mawrhydi y Frenhines

AOGC ymhlith prif orielau celfyddyd y Deyrnas Unedig. Trefnwyd *Tywysogion fel Noddwyr* ar y cyd ag Ymddiriedolaeth y Casgliadau Brenhinol ac roedd yn cynnwys dros 300 o eitemau, ac yn eu plith ddarluniau, cerfluniau, gwaith arian, arfau ac arfwisgoedd, porslen a dodrefn. Daeth y rhain o gasgliadau personol pump o Dywysogion Cymru, o Henry (1594 - 1612) i'r Tywysog Charles, a roddodd eitemau ar fenthyg ar gyfer yr arddangosfa ac a oedd yn ŵr gwadd yn y seremoni agoriadol.

Defnyddiwyd set gefndir hardd a chymhleth i drawsnewid yr orielau'n gyfres o balasau ar gyfer yr arddangosfa a ddenodd 34,228 o ymwelwyr, y nifer fwyaf a gofnodwyd erioed ar gyfer arddangosfa gelfyddyd yn AOGC; ac fe godwyd £86,250 mewn



*Tywysogion fel Noddwyr*

*Oriel Celf yng Nghymru*

Ym mis Hydref 1998 agorwyd Oriol Celf yng Nghymru lle bwriedir cynnal arddangosfeydd ar wahanol agweddau ar ddiwylliant gwledol Cymru. Yn y tymor agoriadol o dair arddangosfa - *Tirnodau*, *Rhagolwg: Josef Koudelka*, a *Henry Clarence Whaite (1828 - 1912)* - gwelwyd ymateb gwahanol artistiaid i dir Cymru.

Un arddangosfa a gafodd lawer o sylw ac a darddodd ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru oedd *Eiconau Kalighat*: arddangosfa o gelfyddyd boblogaidd Indiaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Credir bod cenhadon o Gymru wedi dod â nifer sylweddol o baentiadau Kalighat, a dynnwyd gan arlunwyr stryd yng Nghalcutta, yn ôl i Gaerdydd. Mae'r casgliad ymhlith yr enghreifftiau gorau y gwyddom amdanynt o'r *genre* hwn ac fe ysgogodd yr arddangosfa raglen gyfoethog o ddigwyddiadau celfyddydol, gan gynnwys cerddoriaeth a dawnsio o India.



Syr Joshua Reynolds (1723-92) Charlotte Grenville a'i phlant

*Derbyn Gwrthrychau a Gofalu am y Casgliadau*  
Prynwyd dau bortread ysblennydd gan Joshua Reynolds yn ystod y flwyddyn. Prynwyd *Charlotte Grenville a'i phlant*, sy'n dangos teulu Syr Watkin Williams-Wynn, noddwr mwyaf haelfrydig y celfyddydau yng Nghymru, am £1,410,913 gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Genedlaethol y Casgliadau Celfyddyd. Yn ogystal, prynwyd *Watkin Williams-Wynn a Henrietta Somerset ei wraig gyntaf* c. 1769 gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Cafwyd cymorth y Gronfa Genedlaethol y Casgliadau Celfyddyd hefyd i ychwanegu set o lestri pwdin o borslen Abertawe, a blodau botanegol wedi'u paentio arni, at y casgliad o lestri Cymreig.



Gwnaed gwaith cadwraeth ar ddefnydd ar gyfer Castell Sain Ffagan ac adferwyd celfcyn gwych, Esmwythfainc Clive, c.1768, er cof am y cyn-Lywydd CRT Edwards.

Yn ystod y flwyddyn, ymadawodd y Ceidwad Celfyddyd, David Alston, i ymuno â'r fenter gyffrous newydd, The Lowry, yn Salford. Tra bu'n gweithio yn AOCC (1994 - 98), cydweithiai'n agos ag artistiaid cyfoes, ysbrydolodd raglen gyffrous o arddangosfeydd a digwyddiadau, gwelodd gynllun hir-ddisgwyliedig Oriol Celf yng Nghymru yn dwyn ffrwyth. Croesawn ei olynnydd, Oliver Fairclough, a oedd gynt yn Geidwad Cynorthwyol (Celfyddyd Gymwysedig).



*Eiconau Kalighat*

## BIOAMRYWIAETH A BYWYDEG GYFUNDREFNOL

Daeth Celfyddyd a Bioamrywiaeth ynghyd mewn arddangosfa boblogaidd o'r enw *Anifeiliaid Anhygoel* a agorwyd gan Rolf Harris cyn y Nadolig 1998. Cyfunwyd celfyddyd a gwyddoniaeth i drafod, mewn dull oedd yn addas i'r teulu cyfan, yr hyn a ddywed gwyddoniaeth wrthym am anifeiliaid a'r ffyrdd y mae anifeiliaid wedi ysbrydoli artistiaid. Nod y tîm addysg a dehongli oedd hoelio sylw hyd yn oed y plant ieuengaf trwy gyfuno drama, gweithgareddau, gweithdai ac oriel ryngweithiol fawr. Yn wir, bu AOGC yn atseinio am bedwar mis i sŵn plant (ac oedolion) - 49,629 i gyd - a oedd wedi'u cyfareddu gan yr hyn a welsant.

### Bioamrywiaeth yng Nghymru

Erbyn hyn, mae llawer o waith gwyddonol AOCC yn ymwneud â bioamrywiaeth - sef amrywiaeth organebau byw. Mae hi'n hanfodol bwysig deall bioamrywiaeth er mwyn gwarchod natur ac mae hefyd yn rhan o Agenda 21 - sy'n gweithio tuag at ddatblygu economi cynladwy. Roedd ein cyfraniadau at gynlluniau gweithredu lleol ym maes bioamrywiaeth (LBAPS) yn cynnwys arolygon o byllau a gwrychoedd yn ardal Caerdydd. Fel rhan o'r cynllun cenedlaethol, cynhaliwyd nifer o arolygon ar fisglod yr afon, mwsoglau a chen y cerrig, pryfetach a phlanhigion blodeuol.

Mae AOCC wrthi'n cydweithio ag asiantaethau eraill yn y maes hwn: cefnogwyd nifer o'r prosiectau uchod gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a busnesau fel Hyder. Rydym yn parhau i astudio creaduriaid Môr Iwerddon ar y cyd â Phrifysgol Bangor, Coleg y Drindod Dulyn ac Aqua-Fact Galway trwy raglen INTERREG yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Amgueddfa'n dal yn aelod o Grŵp Bioamrywiaeth Cymru, Cyngor Addysg Amgylcheddol Cymru a grwpiau llywio Cynlluniau Gweithredu ar gyfer gwahanol rywogaethau.

Rhan hanfodol o waith AOCC ar fioamrywiaeth yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'r amgueddfa'n ffocws ar gyfer hyrwyddo Agenda 21 yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac, eleni eto, cynhaliodd Rwydwaith Ysgolion a Chymunedau Agenda 21 (SCAN) a fydd yn dod â gwybodaeth amgylcheddol i bob ystafell ddosbarth yng Nghymru.

Bu gan amgylchedd Cymru ddylanwad aruthrol ar ei threftadaeth ddiwylliannol gan fod adnoddau naturiol fel glo, haearn a choed yn ganolog i

ddiwydiant Cymru. Ar y llaw arall, mae diwylliant y bobl yn dal i gael effaith sylweddol ar natur. Gyda'i harbenigedd mewn hanes cymdeithasol a diwydiantol, archeoleg a gwyddorau naturiol a daear, gall AOCC fod yn ffocws ar gyfer deall cynladwyedd yng Nghymru.

Mae ymchwil yn ffordd arall o gyfrannu at gasgliadau a sicrhau y gallwn ymateb i anghenion a thueddiadau'r oes.

Un cyhoeddiad pwysig oedd y 'Plant Crib', sef cymorth i adnabod y rhywogaethau Prydeinig sydd fwyaf anodd eu hadnabod. Cyhoeddwyd papurau ar rywogaethau newydd o blanhigion ffosiledig, molysgiaid a mwydod gwrychog ac fe gafodd yr adran bryfeteg nifer o ychwanegiadau at y casgliad o bryfetach Cymreig. Un cyfraniad pwysig iawn at hwn oedd Casgliad Pryfetach Prifysgol Bangor, a ddatblygwyd dros lawer o flynyddoedd gan Joan Morgan, ac sy'n cynnwys tua 50,000 o sbesimenau.

### Bioamrywiaeth y tu hwnt i Gymru

Gall AOCC chwarae rhan flaenllaw mewn ymchwil a hyfforddiant rhyngwladol oherwydd bod ganddi gasgliadau o fri rhyngwladol a gasglwyd yn anterth yr ymerodraeth Brydeinig a rhai sy'n dangos y berthynas rhwng creaduriaid a phlanhigion Cymru â rhai o rannau eraill y byd.

Cafwyd datblygiad pwysig mewn perthynas â'r casgliadau hyn pan lansiwyd safwe rhyngweithiol y gellir ei ddefnyddio i chwilio o bell trwy gronfa ddata o ryw 100,000 o eitemau. Gall y cwsmer chwilio trwy ddefnyddio enw, ardal, enw'r casglwr neu statws. Yn achos molysgiaid, gall pobl mewn gwledydd sy'n datblygu geisio gwybodaeth am eitemau yng nghymyrodion pwysig Tomlin; gyda chreaduriaid asgwrn cefn, gallwn hyrwyddo'r defnyddiau arddangos sydd gennym i'w benthyca.

Oherwydd arbenigedd y staff a chryfder y casgliadau, cafwyd cyfleoedd i gymryd rhan mewn arolygon, contractau a gwaith ymchwil mewn meysydd fel cen coed yn Iwerddon; gwasanaeth ymgynghori ar blanhigion prin yn Lloegr; prosiectau ar folsygiaid a chreaduriaid di-asgwrn-cefn y môr yn Affrica a Môr India ac arolwg pwysig o safleoedd planhigion ffosiledig ledled Prydain ar gyfer y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.

Ymhlith y casgliadau oedd yn gosod Cymru mewn cyd-destun ehangach, roedd planhigion ffosiledig o feysydd glo yng Ngwlad Pwyl a Bwlgaria. Mae'r Amgueddfa wedi dechrau cymryd rhan yn y rhaglen

'Shoals of Capricorn' sy'n gyfraniad o bwys at fywydeg y môr yng Nghefnen Mascarene (Seychelles i Mauritius). Trefnir hyn gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol a bydd AOCC yn cyfrannu arbenigedd ar folysgiaid, mwydod gwrychog a samplu gwely'r môr.

Cyflwynodd aelodau o'r staff bapurau mewn cynadleddau rhyngwladol ar folysgiaid (Washington, UDA), mwydod gwrychog (Curitiba, Brasil) a phlanhigion ffosiledig (Krakow, Gwlad Pwyl).




FFIISSSHHH gan Jess Stephens o'r arddangosfa *Anifeiliaid Anhygoel*

## DAEAREG

*Arddangos a Dehongli*

Mae'r prosiectau y mae'r Adran Ddaeareg yn gweithio arnynt ar y cyd ag eraill a'r cyfle i gydweithio â llawer o unigolion a sefydliadau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol yn arwydd o'i gyloch gwaith eang. Bu'r arddangosfa lwyddiannus *Deinosoriaid ar Droed* ar daith ym Mhrydain gan ddenu torfeydd mawr i amgueddfeydd yn Hull, Barnstaple, Bryste, Lerpwl ac Efrog.

Yn arddangosfa Esblygiad Cymru gwelwyd cast newydd o sgerbwd Mammoth Swydd Amwythig.



Arddangosfa Esblygiad Cymru

*Cydweithio Rhyngwladol*

Fel rhan o ymrwymiad yr Adran Ddaeareg i faterion amgylcheddol, cynhaliwyd symposiwm rhyngwladol pwysig yma o'r enw *A Future for Fossils*, a fu'n ystyried llawer o agweddau ar gadwraeth y ffosilau eu hunain a safleoedd ffosilau. Y partneriaid a fu'n cyd-drefnu'r symposiwm â ni oedd English Nature, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Adran Gwyddorau Daear Prifysgol Caerdydd a'r Gymdeithas Balaeontolegol.

Bu'r gwaith ymchwil a'r gwaith maes yn amrywiol iawn hefyd. Bu'r Ceidwad yn darllen papurau cyweirnod mewn symposia rhyngwladol yn Lyon, Ffrainc ac Isfahan, Iran. Yn Iran hefyd bu'n gwneud gwaith maes fel rhan o gynllun palaeo-amrywiaeth pwysig ar draws hen gyfandir Gondwana. Yn ogystal, cynhaliwyd ymchwil ar fetamorffedd gradd isel yn yr Ariannin a Chile, a thrilobitau o China; ac fe gafwyd ymweliadau ymchwil eraill â lleoedd pell fel Kazakhstan a Sweden. Cafwyd grantiau oddi wrth Gymdeithas Frenhinol Llundain tuag at lawer o'r gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig a thuag at yr Uwch Gymrodoriaeth Ymchwil a ddyfarnwyd i Dr Leonid Popov o St Petersburg a fu gyda ni am flwyddyn i wneud gwaith ar Braciopodau Paleosöig cynnar.

*Cynlluniau yn y DU*

Yn nes adref, un arall o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd cwblhau Rhan 3 o'r prosiect Minescan ym mwyngloddiau a chwareli Clwyd ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ogystal, cwblhawyd adroddiadau ar hanes creigiau igneaidd Caledonaidd, creigiau Cyn-Gambriaidd a chreigiau Ordofigaidd Cymru, fel rhan o gynllun gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.

Hefyd, lluniodd yr Adran Ddaeareg gais gan AOCC, ar y cyd ag Ysgol Hanes ac Archeoleg Prifysgol Caerdydd, o dan Gynllun Cyfarpar Ymchwil ar y Cyd NERC, am arian i brynu microsgop electron sganio a chyfleusterau dadansoddi cemegol. Bu'r cais yn llwyddiannus ac felly mae'r offer diweddaraf ar gael yn awr i'r Amgueddfa i wneud gwaith ymchwil a chadwraeth.



## MYNEDIAD

Cynhelir llawer o weithgareddau amlddisgyblaethol AOCC ar safle Parc Cathays. Eleni, cyflwynwyd system sy'n cyfateb i'r System Rheoli Casgliadau cyfrifiadurol yn y Llyfrgell. Erbyn 1999/2000, bydd terfynell wedi'i gosod yn y Brif Lyfrgell i'w defnyddio gan staff ac ymchwilwyr.


Ym mis Ebrill 1998, i gydredeg â dathliadau Canmlwyddiant Lewis Carroll yng Nghaerdydd, cynhaliwyd arddangosfa *Cil-lygadu Carroll* a pherfformiad drama *Interactive Alice* gan Gwmni Theatr Moving Being ac Anterliwt, grŵp theatr yr Amgueddfa. Roedd hwn yn brosiect llawn dychymyg a welwyd gan 1385 o bobl ac a roddai waith ysgrifennu a ffotograffiaeth Carroll yn ei gyddestun. Trwy ddilyn llwybr a gysylltai'r arddangosfa â'n holl arddangosiadau amlddisgyblaethol, cafodd ymwelwyr gyfle i werthfawrogi ehangder diddordebau Carroll, y polymath Fictoraidd.

Daeth nifer fawr o deuluoedd lleol yn ôl fwy nag unwaith i gymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau yn ystod y gwyliau, o ffilmiau am anifeiliaid adeg yr arddangosfa *Anifeiliaid Anhygoel* i weithdai portreadu. Daeth rhagor o bobl nag erioed i



15

Darlun o *Nocturne in Wales*, un o'r llyfrau cain gan Shirley Jones o wasg Red Hen, Aberhonddu. a brynwyd gan y llyfrgell.




Ddathliad y Nadolig ym Mharc Cathays pan gafwyd bandiau dur, eitemau o opera ac ymweliad gan Siôn Corn.

Y nod wrth benodi Swyddogion Addysg parhaol, llawn amser ym meysydd Gwyddorau Daear a Hanes i fod yn aelodau o'r tîm addysg oedd datblygu themâu trawsgwricwlaidd ac, yn wir, mae hyn wedi helpu i sicrhau bod ymweliadau gan ysgolion yn ffynnu - cafwyd cyfanswm o 29,400 o ymwelwyr mewn partïon ysgolion.

Trafodwyd Gwyddorau Daear a Gwyddorau Biolegol mewn prosiect allanol yn ystod yr Wythnos Wyddoniaeth ym mis Mawrth 1999, pryd y bu curaduron yn teithio de Cymru gydag 'amgueddfa ar olwynion'. Aethant ag eitemau o'r casgliad a nifer o baneli, cwisiau a dulliau dehongli i ffatrioedd ac ysbytai.

Yn ystod y flwyddyn, lluniwyd Llawlyfr Ymwelwyr ar gyfer holl staff AOCC i'w helpu i groesawu ymwelwyr a rhagweld eu hanghenion ar bob lefel: bydd hyn yn cael blaenoriaeth yn y dyfodol.



*Cil-bygadu Carol*



Diddanu'n hymwelwyr yn ystod Gŵyl y Nadolig yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd.

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN

Y flwyddyn hon oedd hanner canmlwyddiant Amgueddfa Werin Cymru ac fe gynhaliwyd rhaglen uchelgeisiol o ddiwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau. Canolbwynt y dathlu oedd y gwaith adfer ac ailarddangos a wnaed yng Nghastell Sain Ffagan. I ddechrau, gwnaed llawer o waith adfer ar adeiladwaith allanol y Castell ac yna dechreuwyd ar ran gyntaf y gwaith o ailwneud y tu mewn yn arddull troad y ganrif, y cyfnod pryd y gwnaed y defnydd mwyaf ar yr adeilad gan deulu Plymouth. Ailagorwyd y Castell yn swyddogol ar ddydd Gwener, 3 Gorffennaf gan Iarll Plymouth a roddodd yr adeilad i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1946 a'n galluogi i greu Amgueddfa awyr agored i Gymru.

Ar ddydd Sadwrn, 4 Gorffennaf y dathlwyd yr Hanner Canmlwyddiant. Codwyd tâl mynediad 1948 (swllt neu 5c!) ac fe ddenwyd 12,000 o ymwelwyr - roedd y Castell dan ei sang!



Yr Ardd Rosod

Yn ogystal ag adfer y Castell ei hun, gwnaed cryn dipyn o waith ar y Gerddi. Roedd y rhan gyntaf yn cynnwys adfer yr Ardd Rosod Edwardaidd i'w chyflwr gwreiddiol. Gwnaed gwaith ar y gamlas a'r delltwaith ac fe blannwyd y mathau o rosod a nodwyd ar y rhestrau plannu gwreiddiol. Cafwyd rhodd hael o £18,200 gan Gyfeillion Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru i adnewyddu gathiau'r Ardd Rosod ac fe gafwyd cymorth y cynllun 'Noddi Rhosyn' a gychwynwyd gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru i brynu llawer o'r rhosod.

Dechreuwyd o ddifrif ar y gwaith o ailadeiladu Eglwys Llandeilo Tal-y-bont, sef cynllun adeiladu mwyaf yr Amgueddfa Werin dros y tair blynedd

nesaf. Rhoddwyd hwb ariannol i'r prosiect gan rodd o £5,000 gan Ymddiriedolaeth Elusennol GC Gibson.

Ym mis Tachwedd, cyrhaeddodd yr adeilad diwedd-araf i'r Amgueddfa. Math B2 o adeilad 'pre-fab' oedd hwn ac fe'i cyfrannwyd gan Gyngor Sir Caerdydd. Yng Ngabalfa, Caerdydd y codwyd ef yn wreiddiol ym 1948, ac fe'i defnyddiwyd hyd 1997.

### Digwyddiadau

Slogan marchnata'r flwyddyn oedd 'parti am flwyddyn gron' ac fe ddenwyd 372,000 o ymwelwyr i'r Amgueddfa yn y flwyddyn galendr gan ddiwyddiadau a gweithgareddau arbennig. Yn yr Ŵyl Fai, ail-grëwyd Brwydr Sain Ffagan (350 o flynyddoedd yn ddiweddarach). Cyrhaeddodd yr ŵyl dridiau ei huchafbwynt mewn modd trawiadol iawn yng nghwmni 2,000 o aelodau Cymdeithas y



Holl firi'r ffair yn yr Ŵyl Fai

Cwlwm Cêl. Croesawyd 30,000 o ymwelwyr ac fe godwyd £75,000 mewn tâl mynediad ac incwm o'r siop yn y flwyddyn orau erioed o ran gwerthiant yn yr Amgueddfa Werin.

Wrth i arferion gwaith a diwylliant newid ledled Cymru, mae'r Amgueddfa Werin yn talu mwy o sylw i ddehongli hanes diwydiannol diweddar Cymru a ffordd o fyw sy'n prysur ddiplannu. Ymhlith y siaradwyr yng Ngŵyl y Glowyr, a noddwyd gan Lofa'r Tŵr, roedd Paul Robeson Jr, Ann Clwyd AS, Tyrone O'Sullivan a'r Athro Hywel Francis. Roedd y neuadd dan ei sang ar gyfer cyngerdd



Canmlwyddiant Paul Robeson gyda'r nos a gynhaliwyd i ddathlu perthynas y canwr â glowyr Cymru.

Bu digwyddiadau i blant a phobl ifanc yn boblog-aidd iawn. Ar ddydd Sadwrn glawog ym mis Gorffennaf ymunodd dros 2,600 o ymwelwyr a'u heirth gwlybion â *Phicnic y Tedi Bêrs*; mentrodd 1,600 trwy lifogydd hanesyddol noson Calan Gaeaf; ac mae'n debyg mai Diwrnod yr Urdd - gyda 4,139 o blant - oedd y trip ysgol mwyaf erioed a drefnwyd i amgueddfa ym Mhrydain. Yn ystod y flwyddyn, roedd 23.4% o'r holl ymwelwyr a ddaeth i'r Amgueddfa Werin yn perthyn i grwpiau addysgol.

Bu Eisteddfod gyntaf Sain Ffagan yn llwyddiant mawr gyda chynnyrch o safon uchel iawn yn y cystadlaethau llenyddol. Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Astudiaethau Gwerin yn Sain Ffagan hefyd.

Cafwyd rhaglen o ddehongli a pherfformio drama a ddaeth â bywyd newydd i'r safle. Bu aelodau Anterliwt, cwmni theatr yr Amgueddfa'n perfformio

rhaglenni undyn mewn rhai o'r adeiladau ac yn cyfrannu at y Ffair Nadolig gyda pherfformiad o *Cwmndonkin with Dylan*. Y Ffair oedd yn cau pen y mwdwl ar flwyddyn galendr eithriadol o lwyddianus ac fe ddaeth 4,000 o ymwelwyr i'r sesiwn brynhawn ar y dydd Sadwrn.

### *Ymchwil*

Yn ystod blwyddyn y dathlu, cyfeiriwyd llawer o adnoddau'r Amgueddfa Werin at weithgareddau a digwyddiadau cyhoeddus. Adfer y Castell a'r Ardd aeth â phryd yr ymchwilwyr a'r cadwraethwyr. Y nod wrth ad-drefnu'r staff ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad hwn oedd gosod y sylfeini ar gyfer gwaith ymchwil mwy amlwg, a bydd hynny'n dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Eleni, fe ymddeolodd Dr Elfyn Scourfield, Ceidwad Hanes Cymdeithasol a Diwylliannol; diolch iddo am bron i bymtheng mlynedd ar hugain o ysgolheictod a brwdfrydedd.



Y Castell a'r Ardd wedi'r gwaith adfer



Ail-greu Brwydr Sain Ffagan

## DIWYDIANT

Caewyd Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru (ADMC) ym Mae Caerdydd ddiwedd Mai 1998. Cynlluniwyd yr amgueddfa yn y 1970au fel datblygiad pedwar cam ond ni wireddwyd y cynlluniau hynny. Roedd gan yr amgueddfa ddiwydiannol

lawer o gefnogwyr, a bu tristwch mawr o'i cholli.

Serch hynny, fe roddodd gyfle i ni gynllunio i agor Amgueddfa newydd ag ynddi ddigon o le a chyfleusterau i adrodd hanes Diwydiant Cymru yn effeithiol. Ym mis Mehefin, ar ôl cael arian

cychwynnol, dechreuwyd ymgynghori â'r cyhoedd ar *Cymru - y genedl ddiwydiannol gyntaf*, er mwyn asesu'r farn ar leoliad yr amgueddfa newydd yn y lle cyntaf. Cafodd Abertawe gefnogaeth gref, a dyna'r lle a ddewiswyd yn y pen draw. Gwahoddwyd pobl i ymateb i'n polisiâu ar gasglu a dehongli ym maes diwydiant. Cafwyd ymatebion gan drigain o unigolion a sefydliadau a bu eu cyfraniad yn hynod o werthfawr.

Mae ein strategaeth ar gyfer Cymru gyfan yn cynnwys amgueddfa ganolog yn Abertawe a fydd yn cyfeirio at amgueddfeydd unigol ledled Cymru. Bwriadwn wella'r amgueddfeydd hynny a chryfhau'r dehongliad o ddiwydiant a geir yn Amgueddfa Werin Cymru ac AOGC.

Yn ogystal, roedd yr arian a gawsom trwy werthu'r tir yn golygu y gallem brynu'r Ganolfan Gasgliadau wych yn Nantgarw, ac fe symudwyd holl gasgliadau'r Amgueddfa a oedd yn ymwneud â diwydiant a'r môr yno. Symudwyd dros 2,000 o arteffactau mawr yno ac fe gaiff y cyhoedd eu gweld trwy drefniant. Mae rhannau eraill o'r casgliad yn dal yn Oriol Doc Caerdydd, 126 Stryd Bute, a oedd yn agored i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn.

Ymdeolodd rhai o'r staff a fu'n gweithio yn ADMC yn ystod y flwyddyn, ac yn eu plith y Ceidwad, Dr Stuart Owen-Jones, a fu gyda'r Amgueddfa er 1976. Rydym wrth ein bodd ei fod wedi derbyn Cymrodoriaeth yr Amgueddfa fel y gallwn gadw cysylltiad â chydweithiwr gwerthfawr iawn.

Gwnaed cynlluniau i gryfhau'r Adran Ddiwydiant gyda churaduron ar gyfer glo, archeoleg ddiwydiannol a diwydiant cyfoes. Parhaodd AOCC i ddatblygu partneriaeth â Phwll Mawr er mwyn sicrhau dyfodol yr amgueddfa honno a chydweithio ar ddehongliad cymdeithasol a diwydiannol newydd o'r diwydiant glo.

Aeth y rhaglen gyhoeddi a phrynu yn ei blaen. Prynwyd tri phortread o longau, y llongau ager *Rebecca* a *Snowdonian*, a'r frigantîn *Clara Novello*, a dau fodel o longau - *Cambria* a *Melrose Abbey*. Cafodd yr Amgueddfa archif helaeth a diddorol o daflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd gan Ddwr Prydain.



Y tu mewn i'r Ganolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw

## AMGUEDDFA DIWYDIANT GWLÂN CYMRU DRE-FACH FELINDRE

Bum mlynedd ar hugain yn ôl, daeth Ffatri'r Cambrian, Dre-fach Felindre, melin fwyaf Dyffryn Teifi, i ddwylo AOCC. Cymerwyd y safle ar brydles i ddechrau ac yna fe'i prynwyd ym 1984 am £50,000 a rhoi arni'r enw Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru.

Eleni eto, bu gan yr Amgueddfa berthynas gIos â'r ardal o'i chwmpas ac, ym 1998/99, roedd ei rhaglen yn cynnwys *Meini Melin*, sef arddangosfa o waith myfyrwyr Coleg Technoleg a Chelfyddyd Sir Gaerfyrddin, y'i seiliwyd ar beiriannau Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân; ac arddangosfa o frodwaith, tecstilau a gwehyddu gan Urdd Gwneuthurwyr Cymru; ymhlith yr arddangosfeydd eraill roedd *Mwy na Du a Gwyn*, dathliad o ddefaid Jacob; ac *Anifeiliaid Anhygoel*.



Yn ogystal, bu 1998 yn garreg filltir i ADGC - cydnabuwyd bod yr amgueddfa'n safle o arwyddocâd cenedlaethol ac yn rhan hanfodol o Strategaeth Ddiwydiannol Cymru. Sefydlwyd Tîm Prosiect ADGC i gydweithio ag ymgynghorwyr ar gynllun datblygu i uwchraddio pob elfen o waith y safle.

Bwriadwn: - Creu amgueddfa genedlaethol o safon uchel - un fywiog, llawn gwybodaeth, addysgol a deinamig, lle byddwn yn gofalu am gasgliadau sy'n berthnasol i'r diwydiant gwlân, yn eu rheoli ac yn eu harddangos mewn ffordd fodern ac effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, mae casgliadau'n cynnwys adeiladau, pobl, a'u sgiliau ym maes dylunio a chynhyrchu celfyddyd a chrefftau, yn ogystal ag arteffactau.

- Dehongli hanes cyflawn diwydiant gwlân Cymru, gan warchod a hyrwyddo prosesau cynhyrchu gwlân, ac adlewyrchu sgiliau'r gorffennol a'r arferion gorau ar gyfer y dyfodol.

- Sicrhau bod y casgliad a'r safle yn agored i gynifer o bobl ag y bo modd, gan sicrhau a hyrwyddo cyfleoedd i ragor o bobl o feysydd ehangach i ymweld ag ADGC ac i ddefnyddio'i hasedau ar gyfer mwynhad, dysgu gydol oes ac ysgolheictod.

